# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 28 Ionawr 2019** |
| Amser: | **12.30 - 14.45** |

## Cofnodion: AC(5)2019(1)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Siân Gwenllian AC**<br>**David J Rowlands AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Kevin Tumelty, Pennaeth Diogelwch**<br>**Kathryn Potter, Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil**<br>**Carys Evans, Pennaeth Cyswllt a Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau**<br>**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**<br>**Non Gwilym, Pennaeth Cyfathrebu**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | **Ann Beynon, Cynghorwr Annibynnol**<br>**Aled Eirug**<br>**Robert (Bob) Evans, Cynghorwr Annibynnol**<br>**Ceri Hughes, Cynghorwr Annibynnol**<br>**Sarah Pinch, Cynghorwr Annibynnol**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad** |

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd Gynghorwyr Annibynnol newydd y Comisiwn, a fu'n bresennol am ran o'r cyfarfod, a Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes newydd y Cynulliad.
Diolchodd y Llywydd i'r ddau Gomisiynydd newydd am ymgymryd â phortffolios eu rhagflaenwyr, ac fe'u croesawyd i'w cyfarfod Comisiwn ffurfiol cyntaf.

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 1.2 Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd Datganiadau o Fuddiant.

## 1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd.

# 2 Strategaeth y Gyllideb a Chyllideb y Comisiwn 2020-21

Dechreuodd y Comisiynwyr drafodaethau cychwynnol ynghylch eu dull gweithredu ar gyfer strategaeth y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21.

Trafododd y Comisiynwyr gynigion ar gyfer strategaeth y gyllideb a gofyniad y gyllideb gyffredinol ar gyfer 2020-21 a'r ddwy flynedd ganlynol. Yn benodol, roedd y drafodaeth hon yn canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer blwyddyn olaf y Cynulliad hwn. Nododd y Comisiynwyr y byddai angen trafodaeth bellach ar y cynnydd yng Nghyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr i Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Cytunwyd hefyd ar ymateb i gais y Pwyllgor Cyllid am farn ar ganllawiau cyllidebol.

Bydd cyllideb '20 -21 y Comisiwn yn cael ei gosod yn unol â gofynion y Rheolau Sefydlog ym mis Medi.

# 3 Gwelliannau o ran Diogelwch Amddiffynnol

Trafododd y Comisiynwyr gynigion i wneud gwelliannau i'r diogelwch amddiffynnol mewn mannau mynediad cyhoeddus.

Y cynnig yw gwella diogelwch yr ystâd trwy ddarparu lefel briodol o ddiogelwch ac oedi ar y prif fynedfeydd cyhoeddus. Byddai'r cynigion yn addasu’r ddwy fynedfa.

Cytunodd y Comisiynwyr i ofyn am farn eu grwpiau ar y newidiadau posibl.

Cytunodd y Comisiynwyr na ddylid cyhoeddi'r papur.

## 4 Paratoadau Comisiwn y Cynulliad ar gyfer gadael yr UE

Trafododd y Comisiynwyr bapur yn adrodd ar y cynnydd o ran ymdrin ag effaith gadael yr UE ar y Cynulliad. Roedd yn amlinellu’r gwaith sy’n cael ei wneud i asesu'r goblygiadau a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gweithgarwch y Cynulliad sy’n gysylltiedig â gadael yr UE. Roedd hefyd yn rhoi asesiad o'r goblygiadau i'n gwasanaethau corfforaethol a pha mor barod ydynt yn y maes hwn.

Gofynnodd y Comisiynwyr sut y mae agweddau penodol ar weithrediad y Comisiwn, er enghraifft gofynion Iechyd a Diogelwch, yn cael eu monitro o ran goblygiadau. Nodwyd y papur.

## 5 Diwygio etholiadol – y wybodaeth ddiweddaraf

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i’r Comisiynwyr am y gwaith ar raglen ddiwygio'r Cynulliad, gan ganolbwyntio’n benodol ar faterion polisi sy'n ymwneud â Bil y Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Cytunodd y Comisiynwyr ar y dull o ddeddfu ar drefniadau ariannol ac atebolrwydd y Comisiwn Etholiadol, gan nodi ei fod yn destun barn Pwyllgor(au) a'r Cynulliad yng Nghyfnod 1.

Trafodwyd datblygiadau pellach yng nghynnwys arfaethedig y Bil, a thrafodwyd a nodwyd ffordd ymlaen y Llywydd, i gwblhau'r Bil cyn ei gyflwyno.

Nododd y Comisiynwyr hefyd yr amserlen ar gyfer cyflwyno a chraffu ar y Bil a'r mater yn ymwneud â chymhwysedd; yr asesiad ariannol wedi'i ddiweddaru o'r Bil a'u rolau a’u cyfrifoldebau cytunedig mewn perthynas â rhaglen ddiwygio'r Cynulliad ac yn arbennig y cyfnod craffu ar gyfer Bil y Senedd ac Etholiadau (Cymru).

## 6 Cynulliad Dinasyddion

Roedd y Comisiynwyr yn gefnogol i’r cynigion o sefydlu Cynulliad Dinasyddion sy'n gynrychioliadol yn ddemograffig fel rhan o raglen i nodi ugeinfed pen-blwydd y Cynulliad.

Cytunodd y Comisiynwyr i ofyn am farn eu grwpiau yr wythnos hon ar gynigion i gynnal Cynulliad Dinasyddion dros ddau ddiwrnod ym mis Mehefin/Gorffennaf 2019.

Byddai'r ffocws ar ddau brif fater:

- y prif heriau sy'n wynebu Cymru yn ystod yr ugain mlynedd nesaf; a
- sut y gall democratiaeth Cymru, a'r Cynulliad yn benodol, ymateb yn well i'r heriau hynny h.y. gwella democratiaeth Cymru.

Cytunodd y Comisiynwyr fod swyddogion yn mynd ar drywydd sefydlu Cynulliad Dinasyddion yn ystod haf 2019, yn amodol ar yr adborth gan grwpiau.

## 7 Polisi ar gyfer darparu henebion, cofebion a phlaciau

Roedd y Comisiynwyr wedi gofyn am ddrafftio polisi yn ymwneud â gosod cofebion ar ystâd y Cynulliad. Trafodwyd proses lle byddai'r Comisiwn yn trafod cynigion ac yn gwneud penderfyniadau, a thrafodwyd canllawiau cysylltiedig i gynigwyr hefyd.

Gofynnodd y Comisiynwyr am addasiadau i'r polisi drafft, ac am iddo gael ei ddosbarthu er mwyn iddynt gytuno arno.

## 8 Papurau i’w nodi:

8.1 Ymgysylltiad rhyngwladol - adroddiad cynnydd

Nododd y Comisiynwyr ddiweddariad i gyflwyno'r gwaith a nodir yn y Fframwaith ar gyfer Ymgysylltiad Rhyngwladol y Cynulliad yn ystod y Pumed Cynulliad. Codwyd y potensial i weithio'n agosach gyda Chwnsleriaid Anrhydeddus.

8.2 Pwyllgor Cynghori Comisiwn y Cynulliad ar Daliadau, Ymgysylltu a’r Gweithlu (REWAC) - Cylch Gorchwyl

Darparwyd i'r Aelodau ddiweddariad o gylch gorchwyl y Pwyllgor Taliadau, gan ehangu ei ffocws o'r hyn yr oedd yn canolbwyntio arno'n flaenorol. Nodwyd hyn. Roedd hyn yn adlewyrchu awydd i wneud defnydd da o'r ystod arbenigedd a ddaw gan y Cynghorwyr Annibynnol newydd. Nodwyd penodiad Cadeiryddion REWAC ac ACARAC:

- Cadeirydd ACARAC - Bob Evans
- Cadeirydd REWAC - Sarah Pinch

8.3 Diweddariad gan y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nodwyd y diweddariad arferol.

8.4 Cofnodion cyfarfod ACARAC ym mis Tachwedd

Nodwyd cofnodion y cyfarfod ACARAC.

## 9 <u>Unrhyw fater arall</u>

Gwnaed y Comisiynwyr yn ymwybodol fod argymhellion wedi'u gwneud gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon a'r Pwyllgor Safonau iddynt eu hystyried - ac y byddai ymatebion drafft yn cael eu dosbarthu iddynt eu hystyried cyn bo hir.

Yn y cyfnod ers y cyfarfod blaenorol, roedd y Comisiynwyr wedi cefnogi cynnig i enwebu Bob Evans fel un o gynrychiolwyr y Comisiwn Pensiynau ACau, a phenodiad Cyfarwyddwr Newydd Busnes y Cynulliad.